# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2019

**YN BRESENNOL:** **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones
Y Cynghorydd Robert Ll Jones

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Mr Gordon Warren

**Aelod Annibynnol**

Dr Teleri M Jones

**WRTH LAW:** Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019 fel rhai cywir.

**3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd."**

## 4. TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU A PHENDERFYNU AR Y BROSES GYFWELD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y broses ddethol statudol ar gyfer penodi pedwar Aelod Annibynnol newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

Trafododd y Panel y ceisiadau a dderbyniwyd yn unol â'r broses tynnu rhestr fer ac yn erbyn y meini prawf penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Rhoes y Panel Dethol sylw i bob cais a llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld.**
- **Trafododd y Panel y cwestiynau y byddant yn eu gofyn yn y cyfweliad a'u cadarnhau a derbyn hefyd y matrics sgorio a gyflwynwyd.**
- **Cytunodd y Panel wahodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer am gyfweliad ar ddyddiad ac amser i'w gadarnhau.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**